WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 20 320500
Fax / Ffacs: 029 20 320600
Email / Ebost: wales@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Iwan Davies
Prif Weithredwr
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Bodlondeb
Conwy
LL32 8DU

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | 27 Awst 2013 |
| **Ein cyfeirnod** | 446A2013 |
| **Tudalennau** | **1** o 5 |

Annwyl Iwan

## Asesiad Gwella

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n ofynnol i mi adrodd ar fy ngwaith archwilio ac asesu ynghylch a yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (y Cyngor) wedi cyflawni ei ddyletswyddau ac wedi bodloni gofynion y Mesur.

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi:

- Fy sylwadau ar i ba raddau y mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau statudol o ran cynllunio gwelliannau.
- Fy sylwadau ar i ba raddau y mae'r Cyngor yn cydymffurfio â'r gofynion i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus, yn seiliedig ar y gwaith a wnaethpwyd hyd yma gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol, gan gynnwys:
  - cynnydd y Cyngor ar feysydd i wella arnynt ac argymhellion a nodwyd yn fy asesiadau blaenorol;
  - unrhyw faterion perthnasol a allai fod wedi codi ers fy adroddiad diwethaf, gan gynnwys sylwadau ynghylch sut y mae'r Cyngor yn ymdrin â heriau ariannol;
  - crynodeb byr o unrhyw adroddiadau a gyhoeddwyd gan reoleiddwyr perthnasol ers fy adroddiad diwethaf.
- Fy nghynigion pellach ar gyfer gwella a/neu argymhellion.
- Diweddariadau i gynllun gwaith ac amserlen Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer cyflawni fy Asesiadau Gwella.

## Mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau cynllunio ar gyfer gwella o dan y Mesur ac mae wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru

Cyhoeddodd y Cyngor ganlyniadau ei adolygiad blynyddol o'i Gynllun Corfforaethol ym mis Mai 2013. Mae'r Cynllun Gwella (y Cynllun) yn rhoi sylwadau clir ar yr hyn y mae'r Cyngor yn anelu at ei gyflawni ar gyfer pob un o'i amcanion gwella dros y pum mlynedd nesaf. Eglura'r gweithgaredd cysylltiedig yn ystod y cyfnod 2013-14 a'r mesurau y bydd y Cyngor yn eu defnyddio i werthuso llwyddiant. Mae'r Cyngor wedi cynhyrchu cynllun syml a chryno sy'n amlinellu'r hyn y mae eisiau ei gyflawni a sut y bydd yn gwneud hynny. Mae'r cynllun wedi'i ysgrifennu'n dda ac yn hawdd ei ddeall. Caiff y sail resymegol dros pam y dewiswyd yr amcanion gwella ei egluro'n gryno ond yn glir a'i hategu gan waith ymgynghori ac ymchwil helaeth.

Ceir wyth o amcanion gwella yn y Cynllun sy'n ymwneud ag: addysg a sgiliau; teimlo'n ddiogel; tai; iechyd ac annibyniaeth; economi sy'n ffynnu; amgylchedd cynaliadwy; treftadaeth, diwylliant a'r Gymraeg; a bod pobl yn cael gwybodaeth gan y Cyngor, yn cael eu cynnwys ac yn cael llais.

Mae'r Cyngor wedi diffinio dulliau priodol o fesur llwyddiant, wedi pennu targedau ac wedi sefydlu data llinell sylfaen ar gyfer ei amcanion gwella. Cyflwynir pob amcan mewn ffordd gyson sy'n pennu'r hyn y mae'r Cyngor am ei wella, beth mae'n bwriadu ei wneud a'r camau sydd eu hangen i gefnogi hyn.

Mae'r Cyngor wedi dewis dros 70 o fesurau llwyddiant. Er bod mwyafrif y targedau y mae'r Cyngor wedi'u pennu ar gyfer 2013-14 yn uchelgeisiol, fel y targed ar y ganran o wastraff trefol a ailgylchir, pennwyd tri tharged ar gyfer 2013-14 nad ydynt yn uchelgeisiol a phrin yw'r esboniad yn y Cynllun. Pan fydd y Cyngor yn dewis pennu targedau llai uchelgeisiol dylai esbonio pam er mwyn i ddarllenwyr ei Gynllun ddeall y cyd-destunau heriol cenedlaethol, ariannol a gwleidyddol y mae'r Cyngor yn gweithredu ynddynt. Mae'r mesurau llwyddiant ar gyfer yr amcan gwella sy'n nodi bod 'pobl yng Nghonwy'n byw mewn tai diogel a phriodol', er enghraifft, yn canolbwyntio ar atal digartrefedd ond mae'r targed a bennwyd ar gyfer 2014-14 yn is na'r hyn a gyflawnwyd gan y Cyngor yn 2012-13. Felly mae'r Cyngor yn cydnabod ei bod yn annhebygol y bydd yn gallu atal digartrefedd ar gyfer cyfran gyfuwch o'i gleientiaid ag yn y gorffennol ond nid yw'n esbonio pam.

Mae'n gymharol hawdd dod o hyd i'r cynllun ar wefan y Cyngor a darperir copïau caled mewn safleoedd allweddol. Mae'r cynllun a'r crynodeb o Gynllun Corfforaethol 2012-2017 wedi cael eu cynhyrchu yn y Gymraeg a'r Saesneg ac maent yn bodloni gofynion Cynllun Iaith Gymraeg y Cyngor.

## Yn seiliedig ar y gwaith a wnaethpwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru hyd yma, ac yn gyfyngedig i'r gwaith hwnnw, credaf fod y Cyngor yn debygol o gydymffurfio â'r gofyniad i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn ystod y flwyddyn ariannol hon

Rwyf wedi dod i'r casgliad hwn oherwydd:

- mae'r Cyngor yn parhau i wneud cynnydd da o ran mynd i'r afael â'r cynigion ar gyfer gwella a nodwyd mewn asesiadau blaenorol;
- ymgysylltodd y Cyngor yn dda â chynghorau eraill yng Ngogledd Cymru a chyda Swyddfa Archwilio Cymru yn ystod ein Hastudiaeth Gwella ddiweddar o effeithiolrwydd prosesau craffu;
- mae'r Cyngor yn cydnabod yr heriau ariannol y mae'n eu hwynebu ac mae ganddo drefniadau priodol ar waith i'w rheoli.

### Mae'r Cyngor yn parhau i wneud cynnydd da o ran mynd i'r afael â'r cynigion ar gyfer gwella a nodwyd mewn asesiadau blaenorol

Rwyf wedi gwneud nifer o gynigion ar gyfer gwelliannau mewn asesiadau gwella blaenorol. Rhoddir crynodeb o'r cynnydd ar y materion hyn isod:

- fel rhan o'i gylch gwella, mae'r Cyngor wedi cwblhau'r broses o roi'r cynigion ar gyfer gwella sydd yn ein hadolygiad thematig o Dechnoleg, Rheoli Gwybodaeth ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd ar waith;
- mae'r Cyngor yn adolygu ei asesiadau effaith ar gydraddoldeb ar gyfer pob amcan gwella ac mae'r rhain yn cael eu monitro gan y tîm perfformiad canolog i sicrhau cysondeb ar draws y Cyngor.

Darperir rhagor o wybodaeth am ein canfyddiadau yn rhai o'r meysydd hyn ar wahân mewn diweddariadau interim lle y bo'n briodol. Byddaf yn adrodd ymhellach ar berfformiad y gwasanaethau, gan gynnwys gwaith lleol ar wasanaethau digartrefedd, yn fy Adroddiad Gwella Blynyddol.

### Ymgysylltodd y Cyngor yn dda â chynghorau eraill yng Ngogledd Cymru a chyda Swyddfa Archwilio Cymru yn ystod ein Hastudiaeth Gwella ddiweddar o effeithiolrwydd prosesau craffu

Yn ystod hydref 2012 a gwanwyn 2013, cymerodd y Cyngor ran weithredol yn ein Hastudiaeth Gwella Cymru gyfan o effeithiolrwydd trefniadau craffu cynghorau. Byddwn yn adrodd ar ganlyniadau'r gwaith hwn yn ddiweddarach yn 2013 ac yn cynnal digwyddiad cyd-ddysgu ym mis Tachwedd 2013.

Yn ystod yr astudiaeth, gwnaeth Tîm Cyfnewid Dysgu gan Gymheiriaid, sy'n cynnwys aelodau a swyddogion, y canlynol:

- cymryd rhan mewn gweithdai rhanbarthol ynghyd â thimau cyfnewid dysgu gan gymheiriaid o gynghorau eraill yng Ngogledd Cymru;
- arsylwi mewn cyfarfodydd o bwyllgor craffu Cyngor Sir Ynys Môn, gan ddarparu adborth i aelodau'r pwyllgor;
- trafod y ffordd y mae craffu'n gweithio yng Nghyngor Sir Ynys Môn gyda grŵp o gadeiryddion a dirprwy gadeiryddion pwyllgorau;
- tynnu ar ei drafodaethau a'i arsylwadau, gan roi barn allanol i Gyngor Sir Ynys Môn drwy werthuso ei swyddogaeth graffu yn erbyn meini prawf a ddatblygwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Llywodraeth Cymru a'r Rhwydwaith o Swyddogion Craffu.

Rydym wedi rhoi dadansoddiad i'r Cyngor o'i hunanwerthusiadau, a sut maent yn cymharu â'r rhai mewn cynghorau eraill ledled Cymru. Rydym yn disgwyl i'r Cyngor ystyried y rhain a phenderfynu sut y bydd yn gwella ei drefniadau craffu ymhellach. Byddwn yn gwneud sylwadau ar hunanwerthusiad terfynol y Cyngor ar ôl iddynt gael eu cytuno gan y Cyngor, fel rhan o'n gwaith Asesiadau Gwella parhaus.

### Mae'r Cyngor yn cydnabod yr heriau ariannol y mae'n eu hwynebu ac mae ganddo drefniadau priodol ar waith i'w rheoli

Bydd nifer o gyhoeddiadau diweddar gan lywodraeth y DU yn cael effaith sylweddol ar gyllidebau pob cyngor ar gyfer 2014-15 a thu hwnt. Yn ogystal, mae'r Cyngor hefyd yn cydnabod y galwadau ariannol sy'n deillio o'i flaenoriaethau lleol ei hun, fel adfywio ardal Bae Colwyn a'r angen i roi'r rhaglen moderneiddio ysgolion ar waith dros y pum mlynedd nesaf.

Mae'r Cyngor wedi cynhyrchu Fframwaith Ariannol Tymor Canol ond nid yw hyn yn cynnig dehongliad ariannol o effaith llai o arian ar gynlluniau strategol Conwy. Ar hyn o bryd, nid yw'r Cyngor yn teimlo y gall wneud rhagor o gynnydd o ran cynllunio ar gyfer y tymor canol nes i Lywodraeth Cymru gynhyrchu rhagor o ganllawiau yn dilyn ei chyhoeddiad diweddar y dylai llywodraeth leol yng Nghymru gynllunio ar sail y lleihad mewn cyllid sy'n digwydd mewn llywodraeth leol yn Lloegr. Mae'r Cyngor wedi cynhyrchu cynlluniau i nodi'r arbedion sy'n ofynnol ar gyfer 2014-15, ond bydd yr effaith ar wasanaethau yn dibynnu ar y setliad ariannol gan Lywodraeth Cymru.

**Byddaf yn adolygu effeithiolrwydd trefniadau corfforaethol y Cyngor yn ystod yr asesiad corfforaethol arfaethedig**

Nid wyf yn gwneud unrhyw gynigion newydd ar gyfer gwella yn y llythyr hwn. Mae'r gwaith rydym wedi'i gyflawni hyd yma yn fy arwain i gredu bod y Cyngor yn debygol o gyflawni ei ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn ystod 2013-14. Ym mis Tachwedd 2013, bydd fy staff yn cynnal asesiad corfforaethol manwl o'r Cyngor. Byddaf yn adrodd ar fy nghanfyddiadau yn fy Adroddiad Gwella Blynyddol yn gynnar yn 2014, a bydd y canfyddiadau'n cynnwys asesiad pellach o ba mor debygol yw'r Cyngor o wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn ystod gweddill y flwyddyn bresennol ac yn 2014-15.

## Diweddariadau i'r cynllun gwaith a'r amserlen

Bydd fy Nhîm Asesiadau Gwella yn rhoi gwybodaeth reolaidd i'r Cyngor am y trefniadau manwl ar gyfer cyflawni fy ngwaith asesu.

Mae'r cynllun gwaith a'r amserlen, a gaiff eu diweddaru'n rheolaidd, yn rhoi rhagor o fanylion am y gwaith a wneir yn ystod yr asesiad eleni ac yn benodol sut y byddwn yn ychwanegu gwerth drwy ganolbwyntio ar feysydd neu wasanaethau a nodwyd ar y cyd gennym ni a'r Cyngor. Mae'r cynllun gwaith a'r amserlen yn ystyried fy ymgynghoriad gydag awdurdodau gwella ynghylch fy nghynigion ar gyfer gwaith archwilio perfformiad 2013-14.

Rwy'n ddiolchgar i'r Cyngor am y ffordd y mae wedi helpu i hwyluso ein gwaith. Rwy'n parhau i fod yn ymrwymedig i ddarparu sicrwydd priodol i'r cyhoedd yn ogystal â'ch cynorthwyo i liniaru'r risgiau anochel i wasanaethau ac atebolrwydd sy'n deillio o leihad mewn adnoddau a newid canlyniadol.

Byddaf yn cyhoeddi'r llythyr gwella hwn ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru cyn gynted ag y bydd y llythyr wedi'i drafod gan un o bwyllgorau'r Cyngor neu ddau fis ar ôl i'r llythyr gael ei anfon, pa un bynnag a ddaw gyntaf.

Yn gywir



**HUW VAUGHAN THOMAS**
**ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU**

CC: Lesley Griffiths – Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth
Huw Lloyd Jones – Rheolwr
Gwilym Bury – Arweinydd Archwilio Perfformiad